

Strategaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021-2024

Gweledigaeth

Cymru lle y gall plant chwarae a chymunedau ffynnu

Cenhadaeth

Bod yn llais Clybiau Gofal plant Allysgol yng Nghymru, yn cefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant sy'n gynaliadwy, yn fforddiadwy ac sy'n bodloni anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Awn ati i eiriol

Mae CPCKC yn diogelu

Cydweithiwn

Addysgwn

Newyddion

Iachach

Ffyniannus

Cyfartal

Diwylliant Bywiog

Cydlynol

Nodau Strategol

Llywodraethiad

Cynaliadwyedd

Hyfforddiant

Iaith Gymraeg

Dulliau mesur

Cynnydd mewn:

- Deall yr hyn yw llywodraethiad da, a sgiliau busnes a rheoli da, sy'n rhoi'r plentyn yn y canol
- Proffil y gyfundrefn
- Cynlluniau Gweithredu Gofal Plant Allysgol
- Templedi plentyn-ganolog o ansawdd
- Lleoliadau'n ymgysylltu ag ymgorffori ac yn cael eu hymgorffori
- Gweithio mewn partneriaeth
- Sgiliau trefniadol

Cynnydd mewn:

- Lleoliadau Cofrestredig (AGC, Y Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth)
- Lleoliadau a systemau ariannol cadarn
- Marchanta effeithiol a defnydd amlach ohono
- Ymgysylltiad â gwasanaethau CPCKC
- Incwm, cryfhau ein gallu i gefnogi'r Sector

Cynnydd mewn:

- Dewis eang o hyfforddiant, gan hyrwyddo dysgu gydol oes
- Sector gwaith chwarae cryfach, wedi'i gydnabod yn broffesiynol
- Cydlynid y gyfundrefn
- Ymgysylltiad cyflogwyr
- Dealltwriaeth ymysg rhieni o hawl plant i chwarae
- Hyfforddiant ac arweiniad o ansawdd uchel i'r sector.

Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg:

- yn y gyfundrefn
- mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol
- o ran nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru'n rhai cyfrwng-Cymraeg
- mewn cyfleoedd datblygu
- o ran dysgwyr yn cyrchu ac yn hyfforddi yn yr iaith o'u dewis
- a chynnydd mewn hyder i ddefnyddio'r Cymraeg ymysg y sawl nad ydynt yn rhugl ynddi.

Strategaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021- 2024

Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Awn ati i eiriol

i fod yn llais y sector Gofal Plant Allysgol, gan eirol dros angen/hawl plant i chwarae a chefnogi **Cymru iachach**

Mae CPCKC yn diogelu

gan sicrhau y cefnogir darpariaethau gwerthfawr cymunedol i ddiogelu eu hunain drwy lywodraethiad cadarn a chynaliadwyedd cryfach, fel y gallant barhau i gynnig eu gwasanaethau gwerthfawr i rieni/gofalwyr, a chefnogi **Cymru ffyniannus**. Sicrhau y diogelir hawliau plant drwy gynorthwyo Clybiau Allysgol i gofrestru gydag AGC a bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Cydweithiwn

drwy gydweithio a'n partneriaid ar draws CWLWM, A.LI., L.I.C., arianwyr eraill a chymunedau i roi i'r sector Gofal Plant Allysgol y gefnogaeth orau a'r cyfleoedd gorau i ddatblygu, gan gefnogi cyfleoedd hygyrch i bob teulu a **Chymru fwy cyfartal**

Addysgwn

drwy roi cefnogaeth fusnes sector-benodol, adnoddau, hyfforddiant o ran Datblygu Proffesiynol Parhaus, cymwysterau sy'n unol â dysgu gydol oes a gwella ansawdd darpariaethau. Cefnogi datblygiad ein staff ein hunain, Gweithwyr Chwarae, rheolwyr, pwyllgorau, plant, gan gynnwys datblygu o ran yr iaith Gymraeg, ac felly gefnogi **Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith sy'n ffynnu**

Newyddion

Sicrhau bod ein sector â'r wybodaeth ddiweddaraf, sicrhau bod LIC/ALI yn gwybod am yr heriau allweddol a'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r sector. Cyfathrebu manteision darpariaethau Allysgol o ansawdd i ysgolion a chymunedau er mwyn atgyfnerthu **Cymru o gymunedau cydlynol**

Nodau Strategol

Llywodraethiad

Cyfundrefnau corfforedig â llywodraethiad cryf, plentyn-ganolog, sy'n darparu chwarae a gofal cynaliadwy, o ansawdd i blant, teuluoedd a chymunedau

Cynaliadwyedd

Lefel uchel o ymgysylliad ac incwm i gefnogi ein tyfiant; a sector cynaliadwy sy'n fforddiadwy, yn cael ei fawrbriso, un sy'n alluog i gynorthwyo plant, teuluoedd a chymunedau i ffynnu.

Hyfforddiant

Gweithlu cymwysedig, proffesiynol sy'n cefnogi chwarae wedi ei hunan-gyfeirio, a bod hyn yn cael ei ddeall, ei hwyluso a'i hyrwyddo ymysg plant a phobl ifanc

Yr iaith Gymraeg

Cynnydd yn y defnydd o'r iaith Gymraeg, gan roi cyfle i blant a theuluoedd gyrchu cyfleoedd chwarae a gofal plant yn yr iaith o'u dewis, gan sicrhau y bydd yr iaith ar gael i genedlaethau'r dyfodol.

Strategaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021- 2024

Bydd ein strategaeth yn adeiladu **Llywodraethiad** cryf o sefydliadau corfforedig sydd â llywodraethiad plentyn-ganolog cryf, yn darparu chwarae a gofal cynaliadwy, o ansawdd i blant, teuluoedd a chymunedau.

Bydd llywodraethiad effeithiol, plentyn-ganolog yn gwella ansawdd, cynaliadwyedd a hygyrchedd lleoliadau. Mae cymwysterau mewn Gwaith Chwarae a datblygiad proffesiynol parhaus Gweithwyr Chwarae yn allweddol er mwyn helpu i sicrhau bod profiad a chwarae'r plentyn bob tro'n cael y lle blaenaf mewn lleoliadau. Mae rheoli a llywodraethu da mewn lleoliadau hefyd yn sylfaenol i gyrraedd y nod hwn, drwy ddylanwadu'n gadarnhaol ar staffio, adnoddau a diwylliant.

I gefnogi gwella parhaus, mae angen i reolwyr/aelodau pwyllgorau gyrchu dewis eang o adnoddau ar sgiliau busnes, pwyllgorau a hyfforddiant y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eu darparu ar sail barhaus drwy Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant (SDBG), lle y bydd y rhain wedi eu hariannu.

Mae clybiau sydd â set o bolisïau a gweithdrefnau plentyn-ganolog yn eu lle, o dan arweiniad y clwb, hefyd yn gymorth i leoliadau i fabwysiadu ymagwedd systematig tuag at eu busnes, gan sicrhau eu bod cydymffurfio a'r rheoliadau a'r arweiniad yn ogystal a rhoi plant wrth galon popeth y byddant yn ei wneud, gan wella llywodraethiad ac ansawdd. Mae angen moderneiddio a chyflenwi yn rheolaidd y polisïau templed yn Camu Allan – a deunydd eraill sy'n cefnogi busnesau a phwyllgorau

Mae ein Hasesiad Gofal Plant Allysgol (AGPA) yn rhoi cyfle i leoliadau adlewyrchu mewn ffordd gyfannol ar y gwasanaeth gofal plant sy'n cael ei ddarparu, a gwella'n barhaus. Mae'r AGPA syml hwn, ar ffurf rhestr wirio, yn cynnwys cwestiynau sector-benodol ar draws gwahanol agweddau megis rhai cyfreithiol, ariannol, hyfforddiant ac ansawdd, y ddarpariaeth chwarae a marchnata, ac mae'r rhain â'r modd i gyfrannu tuag at gynllun gweithredu i adnabod newidiadau a allai wella llywodraethiad, ansawdd a chynaliadwydd gofal plant, a hefyd bod yn gymorth i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs weld pa anghenion cyffredin sy'n bodoli.

Darperir Clybiau Allysgol yng Nghymru gan ddewis eang o strwythurau llywodraethol e.e. gwirfoddol a phreifat, ac amryw o ffurfiau cyfreithiol. Mae ein strategaeth yn ffafrio ffurfiau cyfreithiol sy'n ymgorffori clybiau mewn fframwaith o lywodraethiad cryf, gan ddarparu chwarae a gofal cynaliadwy, o ansawdd, i blant, teuluoedd a chymunedau.

Strategaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021- 2024

Gwraidd ein Nod Strategol o **Gynaliadwyedd** yw ein cred y dylai pob rhiant/gofalwr, a phob plentyn, ledled Cymru allu cyrchu'r llu o fuddion y gall Clybiau Gofal Plant Allysgol eu cynnig. Bydd ein gwaith yn sicrhau lefel uchel o ymgysylltiad ac incwm i gefnogi tyfiant; ynghyd a sector cynaliadwy sy'n fforddiadwy, yn cael ei fawrbriso, ac sy'n gallu cynorthwyo plant, teuluoedd a chymunedau i ffynnu.

Mae Gofal Plant Allysgol sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cefnogi fforddiadwyedd a hygyrchedd i rieni/gofalwyr drwy fynediad at gynlluniau cymorth ariannol, ac mae hefyd yn cefnogi hawliau plant (**Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yr UNCRC)**), yn arbennig Erthyglau 31, 19, 24, 23, 12 and 13; a Sylw Cyffredinol 17) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. **O ganlyniad, mae cynaliadwyedd a goroesedd y Sector Gofal Plant Allysgol yn hanfodol i fynd i'r afael â'r agenda dlodi, i gryfhau economïau lleol a chenedlaethol a hyrwyddo iechyd a llesiant plant.** Nid goroesedd yw'r nod yn y pen draw – mae arnom angen cymuned Ofal Plant Allysgol ffyniannus sy'n galluogi gwelliannau mewn tyfiant ac ansawdd er mwyn bod o fudd i deuluoedd ledled Cymru.

I fod yn gynaliadwy, bydd ar y Sector Gofal Plant Allysgol angen

- i deuluoedd, cymunedau, ysgolion, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru fawrbriso eu gwasanaethau, a sicrhau bod dulliau cyfannol yn cael eu cymryd o ran mentrau presennol ac yn y dyfodol er mwyn osgoi effeithio'n negyddol ar gynaliadwyedd y sector; a
- cefnogaeth fusnes er mwyn rhoi ar waith strategaethau marchnata effeithiol, amserol a pherthnasol, a systemau ariannol a chynllunio cryf a rhagweithiol.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi darparu cefnogaeth fusnes bwrsasol, sector-benodol ers y dechrau yn 2001, ac rydym felly yn y man gorau i gynorthwyo Clybiau Gofal Plant Allysgol i fynd i'r afael a materion ynghylch cynaliadwyedd. I wneud hyn yn effeithiol mae angen i ni hefyd ganolbwyntio ar ein cynaliadwyedd ein hunain fel cyfundrefn, gan sicrhau bod gennym incwm ac ymgysylltiad digonol i'n galluogi i dyfu, datblygu a chyflawni ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

Mae Gofal Plant Allysgol wedi ei daro'n arbennig o galed gan Covid-19, ac mae ei fywhau yn hollbwysig i atgyfnerthu adfywiad ac adferiad economaidd ar lefelau unigol (plant/rhieni) a chymunedol. Bydd y gefnogaeth a restrir uchod oll yn hanfodol i sicrhau bod darpariaethau gofal plant sydd wedi eu rheoli'n dda, rhai sydd o ansawdd ac yn gynaliadwy, yn goroesi.

Strategaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021- 2024

Nod strategol sy'n cwmpasu pob agwedd ar **Hyfforddiant** er mwyn sicrhau gweithlu Gwaith Chwarae cymwysedig a phroffesiynol yn cefnogi chwarae wedi ei hunan-gyfarwyddo, i'w ddeall, ei hwyluso a'i hyrwyddo ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd yn cwmpasu datblygu proffesiynol parhaus, hyd at lefel gradd sylfaenol, ar sail y ddealltwriaeth fod hyfforddiant o ansawdd yn arwain at weithlu cryfach (Playforce).

Mae hyfforddiant i Weithwyr Chwarae wedi bod yn brif ffocws gan Lywodraeth Cymru, yn rhan o Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae 2014 a'r cynllun 10-mllynedd sy'n cydfynd â hyn. Y mae hefyd ddyhead ar y cyd rhwng y sector a swyddogion i broffesiynoli'r sector gellir cyflawni hyn yn unig drwy gysylltiad cryf â hyfforddiant sy'n cael ei gydnabod a'i barchu.

Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cynnig i'r sector Gwaith Chwarae hyfforddiant a fydd yn sicrhau bod y clybiau'n cydymffurfio'n barhaus â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn ymestyn eu harferion a'u gwaith er mwyn bod â darpariaeth sydd o ansawdd ac yn gynaliadwy. Pan fydd gan y lleoliadau Gofal Plant Allysgol staff hyfforddedig a gwybodus gallant weithio tuag at bwrpas ar y cyd, lle rhoddir i blant y cyfleoedd i â chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd heb gymhlethdodau agendâu sy'n gwrthdaro â'i gilydd.

Byddwn yn cynnig hyfforddiant a chymwysterau i gynorthwyo Gweithwyr Chwarae i wella eu harferion, rhai sy'n rhoi'r grym iddynt gyflenwi yn llawn amgylchedd lle caiff plant gyrchu eu hawl i chwarae, a lle bydd dysgwyr yn tyfu mewn hyder, yn dod yn eiriolwyr chwarae, ac o ganlyniad yn cynnig i'r plant gyfle i chwarae a chael gwrandawriad.

Mae hyfforddiant o ansawdd yn hanfodol i gyrraedd at Gymru ffyniannus; mae'n cefnogi clybiau i weithredu yn ôl rheoliadau ac i gofrestru gydag AGC; mae hefyd yn eu galluogi yn y pen draw i ddarparu gofal plant di-dreth i rieni a gofawyr; mae hyn yn bwysig i Weithwyr Chwarae, y Sector, Plant a'u Teuluoedd. Y mae'n hyrwyddo cynaliadwyedd clybiau a fforddiadwyedd i rieni a gofawyr. Mae gweithlu hyfforddedig hefyd yn cefnogi'r sector drwy gynnig sicrwydd i deuluoedd a all deimlo'n hyderus bod eu plant yn cael gofal mewn amgylchedd y gellir ymddiried ynddo, un sy'n ddiogel ac yn llawn hwyl, lle bodlonir anghenion a hawliau plant. Y mae'n rhoi i'r oedolion hyn y cyfle i deimlo'n hyderus i weithio oriau y tu allan i oriau ysgol, gan agor cyfleoedd ehangach o ran gyrfa, ac opsiynau o ran symud ymlaen.

Strategaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021-2024

Ein strategaeth i gynyddu a gwreiddio'r defnydd o'r **iaith Gymraeg**, gan roi'r cyfle i blant a theuluoedd gyrchu cyfleoedd chwarae a gofal plant yn yr iaith o'u dewis, gan warchod yr iaith i genedlaethau'r dyfodol.

Plant yw'r genhedlaeth bresennol o siaradwyr Cymraeg, a'r genhedlaeth i ddod. Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol yn rhoi i blant gyfleoedd i chwarae, gyda'r ddealltwriaeth bod Chwarae yn cael ei gymell yn gynhenid a'i gyfarwyddo'n bersonol gan y plant. Mae cefnogi lleoliadau a Gweithwyr Chwarae i wreiddio'r iaith Gymraeg i mewn i chwarae – gan oresgyn y rhwystrau o ran hyder – yn allweddol, gan roi i'r plant y gallu i gyrchu cyfleoedd chwarae yn yr iaith o'u dewis, ac i'r rhieni, fwy o opsiynau o ran cyrchu gofal plant yn yr iaith o'u dewis.

Mae galluogi lleoliadau i ddarparu eu gwasanaeth yn ddwyieithog ym mhob agwedd, yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau, yn golygu y gallant gyfranogi yn y Cynnig Gweithiol, gan gefnogi ymhellach strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, sef 1 miiliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Trwy gyfrwng ein strategaeth byddwn yn gwella ansawdd, llywodraethiad a chynaliadweydd lleoliadau cyfrwng-Cymraeg, gan sicrhau eu bod wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a chyda staff Cymraeg eu hiaith i'w cefnogi, yn datblygu lleoliadau newydd drwy gydweithio, gan weld ym mhle y mae'r bylchau yn y ddarpariaeth, a datblygu cyfleoedd i staff a lleoliadau.

Bydd ein hyfforddiant a'n cefnogaeth yn hygyrch drwy'r iaith ddewisol a byddwn yn meithrin hyder mewn siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Cymru fel gwlad, a'i hiaith frodorol ei hun, y Gymraeg, ymhlith yr hynaf yn Ewrop. Er ei bod yn un o'r hynaf, mae'r Gymraeg yn iaith fyw, un sy'n addasu, gan ateb anghenion y rhai sy'n ei siarad.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi pwysigrwydd i'r Gymraeg sy'n gyfartal a'r Saesneg am y tro cyntaf ers Deddfau'r Cyfreithiau yng Nghymru 1535–1542. Cofnododd cyfrifiad 1911 fod 43.5% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a'i bod, am y tro cyntaf mewn bron i 2,000 o flynyddoedd, wedi troi'n iaith leiafrifol yn ei gwlad ei hun; amcangyfrifir bod y ganran yn 2020 wedi gostwng i 28.8%.

Er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i warchod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae'n rhaid gweithredu.